

British Council Cymru Rhaglen Cymru Ewrop 2019–20



Rhyngwladoli Profiadau Darllen Plant a Phobl Ifanc yn Gymraeg

Cyfnewidfa Lên Cymru, Llenyddiaeth Ar
Draws Ffiniau a Chyngor Llyfrau Cymru

Adroddiad Sgopio (2020)

Alexandra Büchler, Elin Haf
Gruffydd Jones & Cari Lake



1. Cyflwyniad	3
2. Cylch Gorchwyl	4
3. Gwybodaeth allweddol am y sefyllfa gyfredol yng Nghymru	4
4. Mapio'r diriogaeth: cyd-destun rhyngwladol cyfieithu llyfrau plant a llenyddiaeth i blant	6
5. Argymhellion a Gweithredoedd	8
Atodiad 1	9
Atodiad 2	9

1. Cyflwyniad

Gall darllen newid ein bywydau. Drwy lyfrau cawn gyrraedd storiâu sydd y tu hwnt i'n profiadau a'n dychymyg. Gall rhai llyfrau aros gyda ni am byth – stori â llun a gawn yn blant bach wrth gyd-ddarllen ag eraill neu'r llyfrau y cawn fwynhad o'u darllen yn annibynnol. P'un a ydym yn ddarllenwyr brwd ai peidio, mae cael llyfrau yn rhan o'n magwraeth yn hawl ac yn fraint.

Gall darllenwyr dwyieithog gyrraedd mwy fyth o lyfrau a straeon. Mae plant a phobl ifanc sy'n byw ac yn cael addysg mewn cyd-destun dwyieithog – yma yng Nghymru a thu hwnt – yn gallu darllen a dychmygu mewn mwy nag un iaith.

Ond beth wyddon ni am yr ystod a'r amrywiaeth o lyfrau sydd ar gael i ddarllenwyr ifanc yn Gymraeg? O ystyried iaith yn unig, gwelwn yn *Arolwg Llyfrau Plant a Phobl Ifanc*¹ fod llyfrau Cymraeg i blant ac oedolion ifanc yn syrthio i ddau categori:

Llyfrau gwreiddiol Cymraeg
Cyfieithiadau neu addasiadau o'r Saesneg.

Prin iawn yw'r llyfrau Cymraeg sy'n perthyn i drydydd categori, sef llyfrau sydd yn addasiadau neu'n gyfieithiadau i'r Gymraeg o ieithoedd heblaw Saesneg. Mae rhai eithriadau nodedig wrth gwrs, megis cyfresi Asterix a Tintin (Dalen). Mae'n bosib hefyd mai dyma'r sefyllfa mewn gwledydd dwyieithog eraill lle siaredir Saesneg (fel Iwerddon), ond nid felly y mae hi mewn poblogaethau dwyieithog yn gyffredinol. Er enghraifft, gall darllenwyr ifanc Catalaneg ddarllen llyfrau gwreiddiol Catalaneg, cyfieithiadau Catalaneg o'r Sbaeneg a chyfieithiadau Catalaneg o ieithoedd heblaw Sbaeneg. Felly hefyd yn achos ieithoedd lleiafrifol eraill ar draws Ewrop.

Gwyddom fod y fasnach lyfrau Saesneg ei hiaith yn arbennig o gyndyn i ymgymryd â llyfrau mewn cyfieithiad, yn wahanol i'r fasnach lyfrau mewn ieithoedd eraill. Felly, addasiadau o lyfrau gwreiddiol Saesneg yw'r rhai a gyhoeddir yn Gymraeg, yn hytrach nag addasiadau o lyfrau a gyfieithwyd i'r Saesneg o ieithoedd eraill. Nid yw cyfieithu o'r Saesneg – ac o'r Saesneg yn unig – yn ffordd o gyrraedd bydoedd a diwylliannau eraill a mwynhau amrywiaeth o ran cynnwys.

Yng Nghymru, mae'r orddibyniaeth hon ar gyfieithu o'r Saesneg yn unig wedi arwain at ddrwgdybiaeth ynglŷn â chyfieithu. Yn Gymraeg, mae'n well gennym ni ddefnyddio'r term 'addasu' na 'chyfieithu', o bosib er mwyn lliniaru mymryn ar y ffaith mai o un iaith yn unig yr ydym yn cyrchu deunydd, yn ogystal â cheisio gwreiddio'r stori yn ein diwylliant ni. Ar ben hyn, cofiwn mai traffig un-ffordd sydd yma hefyd gan mai prin iawn yw'r llyfrau Cymraeg a gaiff eu cyhoeddi yma yng Nghymru neu mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Gyfunol mewn cyfieithiad neu addasiad Saesneg.² Mae gweisg yng Nghymru wedi cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r un llyfr, ac mae enghreifftiau hefyd o addasu llyfrau Saesneg o Iwerddon a'u cyhoeddi yn Gymraeg.

Felly, byddai cyfieithu o ieithoedd eraill – ac nid o'r Saesneg yn unig – yn cynnig profiad darllen Cymraeg a fyddai'n fwy rhyngwladol ac yn fwy amrywiol yn ddiwylliannol. Gallai hefyd arwain at amlygu llenyddiaeth Gymraeg i blant y tu allan i Gymru, drwy gysylltu cyhoeddwyr o Gymru gyda chyhoeddwyr o faint tebyg mewn gwledydd eraill. Hefyd, gallai gyfrannu at gywiro ychydig ar ein profiad a'n barn mewn perthynas â chyfieithu llenyddol i'r Gymraeg. Wedi'r cyfan, mae cyfieithu yn rhan allweddol o systemau llenyddol ac wedi bod felly ers degawdau a chanrifoedd lawer.

1 *Arolwg Llyfrau Plant a Phobl Ifanc* (Rhagfyr 2017). Adroddiad gan Dr Siwan Rosser, Prifysgol Caerdydd. <http://www.clc.org.uk/ni-us/cyhoeddiadau-publications/ymchwil-research>

2 Nodwyd yn 2005 mewn llyfryddiaeth o lenyddiaeth Gymraeg wedi ei chyfieithu i'r Saesneg mai dim ond un nofel Gymraeg i blant, sef *Tân ar y Comin* yn 1994, a gyhoeddwyd mewn cyfieithiad Saesneg.

2. Cylch gorchwyl

Mae'r prosiect hwn yn un cydweithredol sydd yn adeiladu ar ddau argymhelliad penodol yn Adroddiad Rosser: *Arolwg Llyfrau Plant a Phobl Ifanc* (2017).

Argymhelliad 8: Dylai cyfieithu llyfrau plant ac oedolion ifanc i'r Gymraeg gael ei gydnabod yn grefft arbenigol, a dylid blaenoriaethu cynlluniau cyfieithu a fydd yn darparu profiad darllen cyfoethog i'r darllenydd Cymraeg. Yn sgil hynny, dylid cefnogi cynlluniau cyfieithu sy'n ymestyn a chyfoethogi'r ddarpariaeth sydd ar gael yn y Gymraeg neu'n cynnig profiad darllen amgen yn y Gymraeg.

Argymhelliad 9: Rhaid sicrhau bod natur pob cyfieithiad yn addas at ddiobenion y llyfr dan sylw. Os apelio at ddarllenwyr llai hyderus eu Cymraeg yw bwriad y llyfr, yna rhaid i'r cynnwys ieihtyddol adlewyrchu hynny. Yn yr un modd, os ymestyn darllenwyr rhugl yw'r bwriad, yna dylid canfod teitlau llai cyfarwydd (o'r Saesneg ac ieithoedd eraill) er mwyn rhoi profiad darllen cwbl newydd a heriol iddynt. Dylid cydweithio â Chyfnwidfa Lên Cymru er mwyn adnabod cyfleon i addasu gweithiau rhyngwladol

Amcan y gwaith yw gweithredu ar yr argymhellion fel a ganlyn:

- ◆ datblygu cysylltiadau gyda'r sector a chyrchu deunydd addas ar gyfer ei gyfieithu mewn tair gwladwriaeth yn Ewrop (yr Almaen, yr Eidal a Ffrainc);
- ◆ datblygu methodoleg addas i'w defnyddio mewn gwledydd eraill yn Ewrop (a thu hwnt hefyd) y gellid ei rhoi ar waith y tu hwnt i rawd y prosiect cychwynnol hwn;
- ◆ rhannu'r wybodaeth gyda'r sector yng Nghymru;
- ◆ canfod rhagor o awduron a chyfieithwyr sydd â'r cefndir ieihtyddol angenrheidiol i gyfieithu'n uniongyrchol o'r Almaeneg, yr Eidaleg a'r Ffrangeg ar gyfer y darllenwyr hyn;
- ◆ cydweithio yn Ewrop, cryfhau rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes a datblygu perthnasau newydd gyda chyfrff cyffelyb;
- ◆ cynllunio gwaith gwaddol a gweithgaredd dilynol y gellir ei roi ar waith yn syth ar ddiwedd y prosiect, ynghyd â hwyluso a bwydo i mewn i gydweithio yn y dyfodol.

3. Gwybodaeth allweddol am y sefyllfa gyfredol yng Nghymru

Nifer a chanran y teitlau Cymraeg gwreiddiol ac addasiadau o'r Saesneg

Nododd *Arolwg Llyfrau Plant a Phobl Ifanc* (Rhagfyr 2017) mai nifer cyfartalog yr addasiadau yn ystod y cyfnod 2008–2014 oedd 68 (neu 70%) a nifer cyfartalog y teitlau gwreiddiol yn Gymraeg oedd 29 (neu 30%) ar draws pob ystod oedran. Mae nifer a chanran y teitlau a gyfieithwyd yn amrywio'n gymesur yn ôl grŵp oedran: yr uchaf yn y Blynyddoedd Cynnar i'r isaf yn y categori Pobl Ifanc.

Erbyn 2019, mae'r ganran hon bellach yn nes at 50%-50% (gwreiddiol a chyfieithiadau o'r Saesneg), o ganlyniad i weithredu rhai o argymhellion Adroddiad Rosser.

Hefyd, ers cyhoeddi'r adroddiad, mae cyfieithiadau i'r Gymraeg wedi'u cyhoeddi o lyfrau a gyhoeddwyd yn Saesneg yn flaenorol gan gyhoeddwyd o Gymru (Firefly a PETRA Publishing) ac mae Gwasg Carreg Gwalch wedi cyhoeddi cyfieithiadau Cymraeg o lyfrau Saesneg o Iwerddon.

Nodyn: Grwpiau Oedran Mae ychydig o anghysondeb o ran y categorïau grwpiau oedran a ddefnyddir gan Gwales / Cyngor Llyfrau Cymru a'r rhai a ddefnyddir yn *Arolwg Llyfrau Plant a Phobl Ifanc* (t. 18) sy'n seiliedig ar gategorïau Adroddiad Donaldson (Addysg) a Llyfrgelloedd Cymru.

Cyngor Llyfrau / Gwales	Rosser
Llyfrau llun a stori i blant o dan 5 oed	Blynyddoedd Cynnar 0–4
Llyfrau i blant o dan 7 oed	Dechrau Darllen 5–7
Llyfrau i blant 7–9 oed	Darllenwyr Iau 8–11
Llyfrau i blant 9–11 oed	
Nofelau a straeon i'r ardegau	Darllenwyr Hŷn 12–14
	Oedolion Ifanc 14+

Yn yr un modd, mewn gwledydd eraill mae'r categorïau oedran yn amrywio, er enghraifft:

Ffrainc	Sbaen
0 – 3 oed	0 – 4 oed
4 – 7 oed	5 – 7 oed
8 – 10 oed	8 – 11 oed
11 oed ac uwch	12+
Oedolion ifanc 13+	

Cyhoeddwy

Cyhoeddir y mwyafrif helaeth o'r llyfrau hamdden Cymraeg gan bum cyhoeddwr: Atebol, Dref Wen, Gwasg Carreg Gwalch, Rily, Y Lolfa.

Cynhaliwyd arolwg ar-lein³ fel rhan o'r adroddiad sgopio hwn lle gofynnwyd i'r rhain a chyhoeddwy eraill Cymru nodi'r ffactorau pwysicaf a fyddai'n eu hannog i ymgymryd â chyhoeddi cyfieithiadau Cymraeg o ieithoedd heblaw Saesneg. Gosodwyd y ffactorau fel a ganlyn:

Mwyaf pwysig

Arian/Grant/Cyllid Arbennig 86%
Mynychu ffeiriau llyfrau 83%
Awduron/cyfieithwyr a golygyddion addas o ran safon a phrofiad 83%
Gwell cysylltiadau gyda chyhoeddwy tramor 83%

Sicrwydd o werthiant da yn Gymraeg 75%

Mwy o wybodaeth am y broses hawliau ac ati 67%
Perthnasedd i'r Cwricwlwm Addysg 67%

Barn ranedig
Argymhellion ynghylch teitlau penodol 50%
Cyfle i werthu hawliau i gyhoeddwy tramor 50%

Cyfieithwyr

Nododd Argymhelliad 8 yr *Arolwg Llyfrau Plant a Phobl Ifanc* y dylai 'cyfieithu llyfrau plant ac oedolion ifanc i'r Gymraeg gael ei gydnabod yn grefft arbenigol' (A8). Mae hyn yn cyfeirio at gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae rhai o'r beirdd, awduron a chyfieithwyr amlycaf ar gyfer y grwpiau oedran hyn eu hunain yn amlieithog, ac wrth gydnabod cyfieithu llenyddol fel crefft arbenigol, gellid ymestyn y grefft honno i gyfieithu i'r Gymraeg o ieithoedd eraill yn ogystal.

Mae'r sgopio cychwynnol⁴ yn dangos bod yna lawer o awduron a chyfieithwyr sy'n arbenigo mewn llyfrau plant a allai hefyd gyfieithu'n uniongyrchol o Ffrangeg, Almaeneg ac Eidaleg – yn ogystal ag o ieithoedd eraill – i'r Gymraeg. Mae'r ymatebion i'r arolwg yn dangos bod yr ystod o ieithoedd ar gyfer cyfieithu uniongyrchol hyd yn oed yn ehangach, a hefyd yn cynnwys ieithoedd lleiafrifol eraill. (Gweler Atodiad 2)

Fel a nodwyd, nid oes cyfieithiadau ar gyfer plant ac oedolion ifanc o ieithoedd heblaw Saesneg yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ar hyn o bryd. At hynny, mae'r cyfleoedd i gyfieithu a chyhoeddi llenyddiaeth i'r Gymraeg o unrhyw iaith yn gyfyngedig iawn. Ychydig iawn o gyfieithiadau llenyddol o ieithoedd heblaw Saesneg – os o gwbl – sy'n cael eu cyhoeddi yn Gymraeg yn y farchnad lyfrau gyffredinol. Y nofel lawn olaf i'w chyhoeddi oedd *Y Cosaciaid* (Tolstoi, cyf. Caryl Davies) yn 1998. Mae'r cylchgronau llenyddol *O'r Pedwar Gwynt a'r Stamp* (a *Taliesin a Tu Chwith* gynt) weithiau'n cyhoeddi straeon byrion a cherddi mewn cyfieithiad Cymraeg. Mae hyn yn wahanol iawn i'r sefyllfa mewn marchnadoedd ieithoedd lleiafrifol eraill lle mae cyfieithu o ieithoedd ar wahân i'r iaith ddominyddol yn fwy cyffredin o lawer (e.e. Basgeg, Catalaneg, a heb unrhyw gefnogaeth gan y wladwriaeth yn achos Cwrdeg).

Yr unig weithgaredd rheolaidd ym maes cyfieithu llenyddol i'r Gymraeg yw'r Her Gyfieithu (ers 2009) sy'n gystadleuaeth cyfieithu llenyddol flynyddol o iaith benodol i'r Gymraeg, a drefnir gan Gyfnewidfa Llen Cymru mewn cydweithrediad â Wales PEN Cymru, Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Abertawe ac *O'r Pedwar Gwynt*.

Ni ddylid ystyried cyfieithu uniongyrchol a chyfieithu anuniongyrchol (drwy iaith bont) o reidrwydd fel dau ddull cyfieithu sy'n anghymharus â'i gilydd. Mae'n berffaith bosibl cyfieithu'n uniongyrchol o un iaith – Eidaleg, dyweder – gan ymgynghori â'r cyfieithiadau cyfatebol i ieithoedd eraill (Ffrangeg, Sbaeneg, Almaeneg ac ati). Yn wir, dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Her Gyfieithu wedi hyrwyddo dull hybrid neu gydweithredol o gyfieithu llenyddol i'r Gymraeg, drwy annog y defnydd o sawl iaith bont ar yr un pryd (Saesneg, Sbaeneg, Ffrangeg, Eidaleg, Almaeneg) wrth gyfieithu o Bwyleg ac o Dwrceg yn arbennig.

Mae gwledydd eraill yn cynnal gweithdai a chyfleoedd hyfforddi eraill yn rheolaidd i ddatblygu cyfieithu llenyddol i mewn ac allan o'u hieithoedd cenedlaethol.

3 Gweler yr Arolwg yn Atodiad 1.
4 Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

4. Mapio'r diriogaeth: cyd-destun rhyngwladol cyfieithu llyfrau plant a llenyddiaeth i blant

Gall cyhoeddi llyfrau ar gyfer plant ac oedolion ifanc yn Gymraeg, sy'n cael eu cyfieithu o ieithoedd heblaw Saesneg, agor opsiynau di-rif mewn nifer o ieithoedd, rhai cyfarwydd a rhai anghyfarwydd.

Mae'r astudiaeth hon yn canolbwyntio'n bennaf ar dair marchnad iaith benodol – Almaeneg, Ffrangeg ac Eidaleg. Y rhain, ynghyd â Sbaeneg, yw'r ieithoedd mwyaf arferol a siaredir fel trydedd iaith ymhlith cyfieithwyr a chyhoeddwy'r Cymru. Wrth gwrs, mae'r marchnadoedd hyn yn sylweddol fwy na'r farchnad Gymraeg. Efallai y bydd cyhoeddwy'r Cymru hefyd am hyrwyddo eu teitlau eu hunain i'w cyfieithu i ieithoedd eraill wrth iddynt ddewis teitlau i'w cyfieithu i'r Gymraeg. Weithiau, mae prosiectau cyfnwied o'r fath yn fwy llwyddiannus rhwng cyhoeddwy'r sydd o'r un maint ac sy'n gweithredu mewn marchnad o faint tebyg.

Yn ogystal, mae llawer o ieithoedd 'llai' na Ffrangeg, Almaeneg ac Eidaleg yn meddu ar Gronfeydd Grantiau Cyfieithu (tebyg i un Cyfnwiedfa Llen Cymru⁵) a all gefnogi cost cyfieithu llyfrau o'r ieithoedd hyn i rai eraill, a gall hyn fod yn gymhelliant ychwanegol wrth ddewis teitl penodol. Am y rhesymau hyn, rydym wedi ceisio datblygu methodoleg y gellir ei gosod ar waith mewn unrhyw farchnad iaith ac y gellir ei defnyddio fel man cychwyn i ddewis teitlau.

Yn ystod y cyfnod sgopio, cynhaliwyd digwyddiad yn Llanelli gyda rhanddeiliaid lle cyflwynwyd syniadau cychwynnol ar fethodoleg o'r fath. Arweiniodd hyn at ddatblygu Cyswllt Cyfieithu / Translation Connect sy'n cynnwys CHWE phrif elfen, gydag is-gategoriâu ar gyfer rhai ohonynt. Gellir dewis a gosod yr elfennau hyn ar waith mewn gwahanol gyd-destunau ieithyddol. Datblygwyd hyn ymhellach yn y ddogfen Cyswllt Cyfieithu sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

1. ASIANTAETHAU HYRWYDDO Ar draws Ewrop a thu hwnt	4. CYHOEDDWYR Rhai mawr a rhai llai / annibynnol
2. FFEIRIAU LLYFRAU A GWYLIAU Rhyngwladol a chartref	5. CYFIEITHWYR Rhwydweithiau a chymdeithasau
3. RHWYDWEITHIAU Rhyngwladol a chartref	6. GWOBRAU Cenedlaethol a rhyngwladol

Mae'r ddogfen Cyswllt Cyfieithu wedi'i chynllunio fel y gall cyhoeddwy'r ddilyn llwybrau i ddod o hyd i wybodaeth benodol. Mae'r defnyddiwr yn clicio ar bennawd sy'n arwain at un o'r chwe adran. Mae gan bob adran baragraff rhagarweiniol (fel y nodir isod) ac mae'n cysylltu ag ystod o wybodaeth bellach (nad yw wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon).

1. Asiantaethau Hyrwyddo

Mae asiantaethau a sefydliadau diwylliannol sy'n hyrwyddo llenyddiaeth mewn cyfieithiad hefyd yn cynnig cymorth ariannol i gyhoeddwy'r sydd am gyfieithu llenyddiaeth o'u gwledydd hwy. Mae'r asiantaethau hyn yn gweithio'n rhyngwladol ac fel arfer mae ganddynt bresenoldeb mewn ffeiriau llyfrau, ond maent hefyd yn gweithio'n agos gyda chyhoeddwy'r, awduron a chyfieithwyr yn eu gwledydd cartref. Maent yn angerddol ynghylch hyrwyddo eu llenyddiaeth genedlaethol ac maent yn darparu gwybodaeth am awduron/testunau sydd o ddiddordeb i gyhoeddwy'r tramor neu i wyliau rhyngwladol.

2. Ffeiriau Llyfrau a Gwyliau

Digwyddiadau masnach yw ffeiriau llyfrau sy'n fan cyfarfod ar gyfer cyhoeddwy'r, asiantaethau llenyddol, sefydliadau llyfrau, awduron a chyfieithwyr o bob cwr o'r byd. Maent yn cynnig cyfleoedd i gyfarfod a thrafod cynlluniau cydweithio. Mae gan ffeiriau llyfrau hefyd raglen o sgysiau a thrafodaethau panel sy'n mynd i'r afael ag ystod o bynciau perthnasol i'r diwydiant cyhoeddi, megis caffael hawliau, patrymau'r fasnach lyfrau, datblygiadau polisi a rhwydweithio. Bologna yw'r ffair lyfrau fwyaf sy'n arbenigo mewn llyfrau plant. Mae gan y rhan fwyaf o ffeiriau llyfrau adran a rhaglen ar gyfer llyfrau plant, gan gynnwys Frankfurt, sydd â neuadd gyfan ar gyfer cyhoeddwy'r llyfrau plant a darllenwyr ifanc. Yn Ffair Lyfrau Llundain, mae'r Ganolfan Blant / 'Children's Hub' yn cynnig rhaglen sy'n canolbwyntio ar gyhoeddi ar gyfer darllenwyr ifanc, tra bod y Ganolfan Cyfieithu Llenyddol / 'Literary Translation Centre' yn ganolbwyntio ar gyfer cyfieithwyr a thrafodaethau panel ar bynciau amrywiol sy'n ymwneud â chyfieithu llenyddol. Mae'r ddwy ganolfan yn rhan o raglen 'Insights Seminar'. Mae gwyliau llyfrau yn gyfle i ddarllenwyr gyfarfod a gwrando ar awduron a chyfieithwyr yn trafod

eu gwaith ar baneli ac mewn cyfweliadau. Mae'n gyfle da i ddod i adnabod awduron a theitlau nad ydych efallai wedi dod ar eu traws o'r blaen a hefyd i awduron hyrwyddo eu gwaith.

3. Rhwydweithiau

Mae rhwydweithiau'n cysylltu cyrff a phobl sy'n gweithio mewn maes arbenigol – ar sail iaith, ardal ddaearyddol, neu *genre* – ac yn cynnig cyfoeth o wybodaeth a chynghor ar gyfer cyhoeddwr; gall hyn gynnwys hysbysiadau ac erthyglau ar lenyddiaeth plant a hefyd deitlau a argymhellir ar gyfer eu cyfieithu.

4. Cyhoeddwr

Yma ceir detholiad o gyhoeddwr mawr a bach. Mae gan rai o'r cyhoeddwr mawr adrannau plant, tra bod rhai o'r cyhoeddwr llai yn arbenigo mewn llenyddiaeth plant. Mae'r cyhoeddwr llai yn agored ac yn rhagweithiol tuag at gydweithio a chydgyhoeddi, ac mae'r rhan fwyaf yn mynychu ffeiriau llyfrau fel Frankfurt a Bologna, yn aelodau o rwydweithiau ac yn gweithio'n agos gyda chyfieithwyr.

5. Cyfieithwyr

Mae cyfieithwyr yn adnodd gwerthfawr i gyhoeddwr gan eu bod yn medru argymell, tafoli a dod o hyd i deitlau o ansawdd uchel yn eu hieithoedd a'r diwylliannau cysylltiedig. Yn ogystal â chyfieithu'r testun, mae cyfieithwyr hefyd yn olygyddion da ac yn aml yn cynnig y gwasanaethau hyn i gyhoeddwr fel rhan o'u gwaith. Yma ceir rhai rhestrau a chyfeiriaduron sy'n cynnig 'canfod cyfieithydd' ar gyfer prosiectau cyhoeddi. Gallai cyfieithwyr i'r Gymraeg ymuno â'r cyfeiriaduron hyn.

6. Gwobrau

Mae edrych ar enillwyr gwobrau ac anrhydeddau yn ddefnyddiol gan eu bod yn aml yn arwydd o batrymau mewn llenyddiaeth plant a hefyd yn arddangos yr enghreifftiau gorau o wahanol wledydd. Gall categorïau fod yn amrywiol gan gynnwys gwobrau am ddarlunio, nofelau graffig a chomics, yn ogystal â gwaith ffeithiol. Mae'r rhain i gyd wedi'u grwpio yn ôl oedran sydd yn hwyluso'r broses o hidlo teitlau posibl. Mae'r gwobrau hyn hefyd yn anrhydedd i'r cyhoeddwr eu hunain ac yn ddefnyddiol fel ffordd o ddysgu mwy am y cyhoeddwr llwyddiannus.

5. Argymhellion a Gweithredoedd

Seilir argymhellion y prosiect ar ganfyddiadau'r adroddiad sgopio hwn ac ar ddadansoddi'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer y sector mewn gwledydd eraill ac yn rhyngwladol. Gweler y ddogfen Cyswllt Cyfieithu.

Argymhelliad 1:

Creu adnodd dwyieithog ar-lein ar gyfer y sector cyhoeddi er mwyn hwyluso ac annog cyhoeddi cyfieithiadau i'r Gymraeg o ieithoedd heblaw Saesneg.

Gweithred:

Dylunio ac uwchlwytho 'Cyswllt Cyfieithu' fel dogfen ryngweithiol megis pdf

Argymhelliad 2:

Cynyddu hyfforddiant arbenigol ar gyfer cyfieithwyr i'r Gymraeg o ieithoedd heblaw Saesneg gan ddefnyddio methodolegau a ddatblygwyd gan Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau a Chyfnewidfa Lân Cymru ac a weithredir mewn cyd-destunau tebyg.

Gweithred:

Cyfnewidfa Lân Cymru a Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau i gynnwys gweithdai cyfieithu digidol yn eu rhaglen waith ar gyfer 2020–2021 Datblygu'r Arolwg ar gyfer Cyfieithwyr yn Rhwydwaith o Gyfieithwyr Llenyddol

Argymhelliad 3:

Cynnwys cyfeiriad penodol at gymhwystra cyfieithiadau i'r Gymraeg o ieithoedd heblaw Saesneg ym mholisiau, canllawiau a rhaglenni cyllido cyfredol y Cyngor Llyfrau.

Gweithred:

Cyngor Llyfrau Cymru i wirio ei ddogfennaeth

Argymhelliad 4:

Cynyddu gwelededd Cymru'n rhyngwladol fel gwlad ddwyieithog sydd â sector cyhoeddi a chynyddu cyfranogiad Cymreig mewn rhwydweithiau proffesiynol, ffeiriau llyfrau ac ati.

Gweithred:

Cynyddu presenoldeb mewn ffeiriau llyfrau rhyngwladol (e.e. Bologna) Annog y sector yng Nghymru i ymaelodi â rhwydweithiau a chymdeithasau arbenigol Cynnal digwyddiad rhyngwladol megis cynhadledd neu ddigwyddiad tebyg ar y thema hon mewn cydweithrediad â'r sector addysg uwch a sefydliadau a chyrrff eraill

Argymhelliad 5:

Cynyddu ymwybyddiaeth ymysg darllenwyr, awduron, cyfieithwyr, darlunwyr, cyhoeddwr, trefnwyr digwyddiadau ac ati o gyfoeth ac amrywiaeth y llyfrau a fyddai, o'u cyfieithu a'u haddasu i'r Gymraeg, ar gael ar gyfer pob oedran, yn enwedig plant a phobl ifanc.

Gweithred:

Trefnu trafodaethau mewn digwyddiadau o bwys, e.e. yr Eisteddfod Genedlaethol Creu digwyddiadau ar-lein a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o lyfrau mewn cyfieithiad

Argymhelliad 6:

Gwerthuso effaith yr argymhellion a'r gweithredoedd ar ryngwladoli profiadau darllen plant a phobl ifanc yn Gymraeg.

Gweithred:

Adolygu'r effaith a'r allbwn ymhen 12 mis

Atodiad 1

Arolwg i gyhoeddwr – ‘Cyhoeddi llyfrau i blant a darllenwyr ifanc – cyfieithu ac addasu i’r Gymraeg o ieithoedd heblaw Saesneg’

1. Beth fyddai’n hwyluso pethau i chi er mwyn cyhoeddi cyfieithiadau o ieithoedd heblaw Saesneg? (Atebwch gan ddefnyddio’r raddfa ‘Pwysig iawn | Pwysig | Ddim yn bwysig | Amherthnasol)

Arian/Grant/Cyllid/Rhaglen Arbennig
Mwy o wybodaeth am y broses hawliau ac ati
Argymhellion ynghylch teitlau penodol
Gwell cysylltiadau gyda chyhoeddwr tramor
Mynychu ffeiriau llyfrau
Cyfle i gyfnewid hawliau gyda chyhoeddwr tramor
Mynediad at awduron/cyfieithwyr a golygyddion addas o ran safon a phrofiad
Sicrwydd o werthiant da yn Gymraeg
Perthnasedd i’r cwricwlwm addysg

2. Beth yw’r ffactorau eraill sydd yn effeithio ar eich penderfyniad i gyhoeddi neu i beidio â chyhoeddi llyfrau sydd yn gyfieithiadau o ieithoedd heblaw Saesneg?

3. Oes gennych chi unrhyw gynllun neu brosiect cyhoeddi cyfieithiad o lyfr plant ar y gweill? Oes gennych chi unrhyw brofiad o gyhoeddi cyfieithiadau (o ieithoedd heblaw Saesneg)?

4. Ydych chi’n gweithio gyda chyfieithwyr eisoes? Ai dim ond cyfieithu rhwng y Gymraeg a’r Saesneg y maen nhw? Ydych chi’n eu cyflogi nhw ar gyfer unrhyw waith arall?

5. Pa fath o becyn gwaith/gwybodaeth/hyfforddiant fyddai’n ddefnyddiol – ac yn realistig – i’ch helpu chi i gyhoeddi cyfieithiadau/i gynnwys mwy o amrywiaeth yn eich llyfrau?

6. A fyddai rhestr o gyfieithwyr sydd yn gweithio rhwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill yn ddefnyddiol? A fyddai diddordeb gennych mewn comisiynu cyfieithiadau?

Atodiad 2

Arolwg i gyfieithwyr – dim ond yn Gymraeg y cafodd ei gylchredeg. Mae’n parhau ar agor. ‘Cyhoeddi llyfrau i blant a darllenwyr ifanc – cyfieithu ac addasu i’r Gymraeg o ieithoedd heblaw Saesneg’

1. A ydych chi’n medru unrhyw ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg? Os felly, o ba ieithoedd y gallech chi ystyried cyfieithu neu addasu i’r Gymraeg?

Ffrangeg	Sbaeneg	Almaeneg
Eidaleg	Llydaweg	Gwyddeleg
Gaeleg yr Alban	Portiwgaleg	Pwyleg
Iseldireg	Eraill: (Nodwch os gwelwch yn dda)	

2. A ydych wedi cyfieithu neu addasu gwaith creadigol i’r Gymraeg o iaith heblaw Saesneg? Gall hyn gynnwys cyfieithu o’r Ffrangeg, dyweder, a defnyddio cyfieithiad neu addasiad Saesneg fel canllaw achlysurol.

Do, droeon
Do, ambell waith
Ddim ers blynnyddoedd
Naddo, erioed

3. A ydych yn darllen llyfrau i blant neu ddarllenwyr ifanc mewn ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg?

Yn gyson
Ambell dro
Byth

4. A fyddai gennych chi ddiddordeb mewn cyfieithu neu addasu i’r Gymraeg o ieithoedd heblaw Saesneg ar gyfer plant neu bobl ifanc?

Byddai
Na fyddai

5. A oes gennych chi awgrymiadau am lyfrau yr hoffech eu gweld yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg? Gall y rhain fod yn deitlau unigol, cyfresi neu gynnyrch gwasg benodol.

6. A oes gennych ddiddordeb mewn derbyn rhagor o wybodaeth am gyfleoedd i gyfieithu neu addasu i’r Gymraeg o ieithoedd heblaw Saesneg ar gyfer plant a darllenwyr ifanc? Os felly, rhowch eich enw a’ch manylion cyswllt isod os gwelwch yn dda.